**CYFARFOD HYBRID Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Rhagfyr 2022 am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Diprwy Faer)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**83. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs D. L. King, D. Simmons a Dirprwy Glerc y Cyngor Tref Miss H. J. Windus.

**84. <u>COFNODION</u>**

Cadarnhau fel cofnod cywir, gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copiau'n amgaeedig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 16eg Tachwedd 2023 | - | Rhifau Cofnod | 70-82 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cyngorydd P. Prendergast a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 16eg Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod | 31-33 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cyngorydd P. Prendergast a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 7fed Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod | 34-36 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney a ***<u>PHENDERFYNWYD</u>*** *eu bod yn gofnod cywir.*

<u>Cadarnhau neu fel arall:</u>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 7fed Rhagfyr 2022 | - | Rhifau Cofnod: | 41-50 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***<u>R PHENDERFYNWYD</u>*** *as eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

**85. <u>ADRODDIAD Y MAER</u>**

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at ddigwyddiadau y mynychodd hi a'r Maer ar ran y Cyngor Tref dros y mis diwethaf (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), yn enwedig Derbyniad Dinesig Cwmni Theatr Cerdd y Rhyl a'r Ardal a chynhyrchiad 'The Wedding Singer' a ddisgrifiodd fel un gwych.

**86. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â rheolau ariannol mabwysiedig y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau anrheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu at y rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gany r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol ar gyfer eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Delwedd Ltd | Cynyddu maint blwch post ymholiadau | 1556 | 12.96 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliadau ar gyfer Etholiadau Mai 2022 | 1557 | 31,883.46 |
| Gwasg.com | Argraffu rhifyn terfynol Rhodio'r Rhyl | 1558 | 1,970.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Rhent ar gyfer Lloches Bws Tir Morfa | 1559 | 1.00 |
| Delwedd Ltd | Symud blychau post i Office 365 | 1560 | 144.00 |
| Delwedd Ltd | Tanysgrifiadau Office 365 | 1561 | 541.44 |
| Cygor Sir Ddinbych | Rhent ar gyfer y Gerddi Coffa | 1562 | 13.50 |
| Cyngor Sir Ddinbych | CLG Cynnal a Chadw Gerddi 22/23 | 1563 | 37,486.21 |
| Cyngor Sir Ddinbych | CLG Gerddi Coffa 22/23 | 1564 | 6,778.08 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Taliadau gwasanaeth ar gyfer Ffordd Wellington – Ebrill - Rhagfyr 2022 | 1565 | 11,469.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£90,299.65** |

**Taliadau Brys:** Dim

**Taliadau Cerdyn:** Dim

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ddiwgiedig ar gyfer ei thalu, a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**87. EITEM GAN AELOD: ARDAL GWELLA BUSNES Y RHYL (BID)**

Ar ran y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE, gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwwyaeth yr aelodau i ymestyn gwahoddiad i BID y Rhyl i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol i adrodd ar ei lwyddiannau hyd yma.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r gwahoddiad.*

**88. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 89. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a chadarnhaodd bod y dyddiad cau i enwebu wedi mynd heibio ac na dderbyniwyd unrhyw enwebiadau.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad.*

## 90. COFNODION CYFRINACHOL

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth i'r aelodau ac i argymell yr argymhellion ynddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Is-bwyllgor Cynnal - Cynnal a Chadw Tiroedd | 26ain Medi 2022 - | Rhifau Cofnod 11 – 17 |
| Pwyllgor Cynllunio - Strategol a Gweithredol | 12fed Rhagfyr 2022 - | Rhifau Cofnod 29 - 37 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion, gyda diolch i Ddirprwy Glerc y Dref ac aelodau'r Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd am eu gwaith caled.*

## 91. PROSIECT ERASMUS

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.*

**[Datganodd y Cynghorwyr S. Feeney, A. R. James, Mrs W. M. Mullen-James a Ms V. Roberts fuddiant personol yn yr eitem uchod]**

## 92. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Rhagfyr 2022, gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gymeradwyo argymhellion y gyllideb (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), ac i godi praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â chais gan Denbighshire Leisure Limited i'r Cyngor newid ei lefel cyfraniad tuag at ddigwyddiad, cymeradwyodd yr aelodau nhw a'r praesept a argymhellwyd o £555,954. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd bychan o 0.33% ar braesept 2022/23 yn gofyn am daliad o £57.85 ar gyfer eiddo Band D (cynnydd o £0.19 ar daliad 2021/22).

***PENDERFYNWYD****:*

(i) *Bod y Cyngor yn cymeradwyo ac yn codi praesept o £555,954 (Pum cant a phum deg pump o filoedd, naw cant a phum-deg pedwar o bunnau) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cychwyn 1af Ebrill 2023, a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych o hynny.*

(ii) *Diolch i'r Swyddog Ariannol am ei waith ar y mater hwn.*

**[Datganodd y Cynghorydd P. Prendergast fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd ar Fwrdd Denbighshire Leisure Limited, a gadawodd y Siambr heb gymryd unrhyw ran bellach yn y trafodaethau na'r bleidlais ar y mater }**

## 93. CANSLO CYFARFODYDD

Gofynnodd Clerc y Dref bod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a oedd i'w gynnal ar 4ydd Ionawr 2023 yn cael ei ganslo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

## 94. EITEM YCHWANEGOL: GOLEUADAU NADOLIG PŴER SOLAR

Dywedodd Clerc y Dref bod dwy uned golau solar wedi eu gosod yn yr orsaf fysus a gofynnodd i'r aelodau edrych arnyn nhw a rhoi eu barn iddo arnynt at y dyfodol.

## 95. EITEM YCHWANEGOL: RHODIO'R RHYL

Dywedodd Clerc y Dref bod y rhifyn diweddaraf wedi ei ddosbarthu i'r swyddfa a gofynnodd i'r aelodau alw heibio i gasglu rhai i'w dosbarthu yn eu wardiau.

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau na ddylid dosbarthu Rhodio'r Rhyl ar y cyd ag unrhyw ddeunyddd gwleiddydol ar gyfer yr etholiad i ddod, gan fod hyn yn mynd yn groes i Gyfraith Etholiadau.

## 96. EITEM YCHWANEGOL: TYNNU CAIS CYNLLUNIO YN ÔL

Adroddodd Clerc y Dref bod cais mewn perthynas â Maes Emlyn wedi ei dynnu'n ôl, a oedd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, yn union ar ôl y cyfarfod hwn.

At hyn, roedd adran dai Cyngor Sir Ddinbych wedi cynnig mynychu cyfarfod y Cyngor Tref i hysbysu'r aelodau o'r defnydd arfaethedig o'r eiddo.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cynnig i gael cyflwyniad i ddod gerbron Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Tref.*

## 97. EITEM YCHWANEGOL: NEGES GAN Y MAER

Ar ran y Maer, darllennodd y Dirprwy Faer neges Nadolig allan, a diolch gan y Cynghorydd D. L. King.

## 98. EGWYL Y NADOLIG – DIPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth yr aelodau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgyngoriad gyda'r aelodau canlynol ar gyfer y cyfnod 22ain Rhagfyr 2022 hyd at 18fed Ionawr 2023.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Maer a/neu Ddirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Pwyllgor CSG | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y pwyllgor CSG |
| Unrhwy fater arall | - | Cadeirydd a/neu is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**99. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau pellach, datganodd y Maer bod y cyfarfod ar ben.

Dirprwy Faer: ………..……………….

Dyddiad: ……………..………..